

Rhif a nodiant rhif

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - Amrediad	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
<p>Gwybod enwau rhifau a'u hadrodd yn eu trefn hyd at o leiaf 20, gan barhau i gyfrif ymlaen neu yn ôl o rif penodol.</p> <p>Cyfrif o leiaf 20 gwrthrych yn ddibynadwy.</p> <p>Ysgrifennu, darllen a threfnu rhifau o 0 hyd at o leiaf 20.</p> <p>Gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli yn y rhifau o 10 i 20. <i>Cynrychioli gwaith drwy ddefnyddio symbolau a diagramau syml.</i></p> <p>Cymharu dau rif penodedig, datgan p'un sydd fwyaf / leiaf, a datgan rhif rhwng y ddau.</p> <p><i>Cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol feintiau ac o wahanol rifau - mewn unedau o unrhyw rif bach, ac mewn degau o sero ac yn ôl i sero, mewn 2oedd i 20 ac yn ôl. Defnyddio odrifau / eilrifau mewn cyd-destunau ymarferol. Creu patrymau rhif. Adnabod lluosrifau o 10, 5 a 2.</i></p>	<p>Datgan enwau'r rhifau a threfnu rhifau hyd at 100 gan barhau i gyfrif ymlaen neu yn ôl o rif penodol.</p> <p><i>Cyfrif setiau o wrthrychau yn ddibynadwy</i> hyd at 100 drwy grwpio mewn 2oed, 5oedd neu 10au.</p> <p>Darllen ac ysgrifennu a threfnu rhifau cyfan hyd at o leiaf 100.</p> <p>Gwybod beth mae pob digid mewn rhif dau ddigid yn ei gynrychioli, gan gynnwys 0 fel daliwr lleoliad.</p> <p>Defnyddio a dechrau deall geirfa cymharu a threfnu rhifau. Defnyddio'r arwydd = i gynrychioli cydraddoldeb.</p> <p><i>Adnabod dilyniannau o rifau. Cyfrif o 0 neu 1 mewn 2oedd i 40 ac yn ôl. Cyfrif ymlaen neu yn ôl mewn unedau neu ddegau o unrhyw rif dau ddigid. Gwneud datganiadau cyffredinol am odrifau / eilrifau.</i></p> <p>Talgrynnu rhifau sy'n llai na 100 i'r 10 agosaf.</p>	<p>Deall rhif a nodiant rhif</p> <p><i>Gyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau cyfan</i></p> <p>Deall gwerth lle mewn perthynas â safle digidau; lluosif a rhannu rhifau â 10 a 100</p> <p>Adnabod rhifau negatiff a degolion ar linell rif</p> <p>Defnyddio rhifau negatiff yng nghyd-destun tymheredd, a degolion yng nghyd-destun arian a mesurau</p> <p>Ymchwilio i batrymau a pherthnasoedd:</p> <p>Dyfnhau eu dealltwriaeth o gyfathrebu un-i-un</p> <p>Archwilio nodweddion rhifau, gan gynnwys bondiau rhif, ffactorau, lluosrifau, eilrifau ac odrifau, rhifau cysefin, sgwariau ac ail israddau, a dilyniannau o rifau cyfan</p> <p>Cyfrifo mewn amrywiaeth o ddulliau</p> <p>Talgrynnu atebion i gyfrifiadau i radd briodol o fanwl gywirdeb</p>	<p>Datgan enwau'r rhifau yn eu trefn hyd at o leiaf 1,000.</p> <p>Cyfrif casgliadau mwy drwy eu grwpio.</p> <p>Ysgrifennu, darllen a threfnu rhifau hyd at o leiaf 1,000.</p> <p>Gwybod beth mae pob digid mewn rhif 3 digid yn ei gynrychioli a defnyddio gwerth lle mewn rhifau hyd at 1000 i wneud brasamcanion.</p> <p>Darllen a dechrau ysgrifennu geirfa cymharu a threfnu'r rhifau, gan gynnwys trefnolion hyd at o leiaf 100.</p> <p>Cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn degau neu gannoedd o unrhyw rif dau neu dri digid o unrhyw rif dau ddigid ac yn ôl. Adnabod lluosrifau o 2, 5, 10, 50 a 100.</p> <p>Talgrynnu unrhyw rif dau ddigid i'r 10 agosaf ac unrhyw rif tri digid i'r 100 agosaf.</p>	<p>Darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau cyfan hyd at o leiaf 10,000 mewn ffigurau a geiriau; gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli.</p> <p>Lluosi a rhannu unrhyw gyfanrif positif hyd at 1,000 â 10 a deall yr effaith.</p> <p><i>Adnabod rhifau negatiff yng nghyd-destun tymheredd</i></p> <p><i>Defnyddio a dehongli symbolau mathemategol</i> yn gywir, gan gynnwys llai na (<), mwy na (>), yn hafal i (=).</p> <p>Cyfrif ymlaen neu yn ôl mewn 10au, 100oedd, 1,000oedd neu o unrhyw rif cyfan hyd at 10,000. Cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn 2oedd, 3oedd, 4au, 5oedd at 100. Adnabod, disgrifio ac ehangu dilyniannau rhifau a lunnir drwy gyfrif ymlaen neu yn ôl mewn camau o unrhyw faint, gan ehangu heibio i sero wrth gyfrif yn ôl. Adnabod lluosrifau yn nhablau 6, 7, 8, 9. Adnabod rhifau cyfan sy'n rhanadwy, â 100, 10, 2, 4 a 5. Adnabod rhifau sgwâr. Nodi ffactorau rhifau hyd at 100. Gwybod rhai profion rhanadwyedd.</p> <p>Talgrynnu unrhyw rifau 2 neu 3 digid i'r 10 neu'r 100 agosaf.</p>	<p>Darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau cyfan hyd at o leiaf 1,000,000 mewn ffigurau a geiriau; gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli.</p> <p>Trefnu set benodedig o gyfanrifau positif a negyddol.</p> <p><i>Defnyddio dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan</i> hyd at 10,000 â 10 a 100 a deall yr effaith.</p> <p>Adnabod rhifau negyddol ar gyfrifiannell.</p> <p>Adnabod a threfnu rhifau gyda dau lle degol. Dechrau trosi haneri unedau metrig yn unedau llai - 7.5m = 750cm</p> <p>Defnyddio'r eirfa o gymharu a threfnu rhifau, gan gynnwys symbolau fel >, <, , , =.</p> <p>Adnabod, disgrifio ac ehangu dilyniannau rhifau a lunnir drwy gyfrif ymlaen neu yn ôl mewn rhifau cyfan a degolion, gan ehangu heibio i sero wrth gyfrif yn ôl. Adnabod lluosrifau hyd at o leiaf 10 x 10. Adnabod rhifau cyfan sy'n rhanadwy â 3, 6, 8, 9 a 25. Adnabod rhifau sgwâr hyd at 12 x 12. Adnabod rhifau cysefin hyd at 100.</p>	<p>Defnyddio rhifau negyddol mewn cyd-destunau amrywiol.</p> <p>Trefnu set gymysg o rifau gyda hyd at dri lle degol.</p>